**Cofnodion o Gyfarfod Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru yn Senedd Cymru ddydd Gwener 19 Mai 2023**

**<u>Yn Bresennol</u>**

**Aelodau o'r Senedd:**

Mark Isherwood (Cadeirydd), Gareth Davies a Ken Skates

**Arweinwyr Awdurdodau Lleol:**

Y Cynghorydd Ian Roberts (Sir y Fflint), Y Cynghorydd Mark Pritchard (Wrecsam) a'r Cynghorydd Jason McLellan (Sir Ddinbych)

**Siaradwyr:**

Alan Raymant, Prif Weithredwr Cwmni Egino

Elliw Williams, Cwmni Egino

John Allcock, Cadeirydd Cymdeithas Defnyddwyr Rheilffordd Bidston Wrecsam

Hedd Vaughan- Evans, Uchelgais Gogledd Cymru

**Swyddogion:**

**CLlLC:**

Chris Llewelyn (Prif Weithredwr), Tim Peppin (Cyfarwyddwyr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy), Lucy Sweet (Ysgrifennydd y Grŵp), Dilwyn Jones (Rheolwr Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus)

**Llywodraeth Cymru:**

Wendy Boddington

**Camau y Cytunwyd Arnynt**

1. **Cysylltu â Thrafnidiaeth Cymru, i:**

    - Ofyn iddynt gyhoeddi adran Gogledd Cymru o'r prosbectws ar gyfer buddsoddiad mewn isadeiledd rheilffyrdd Cymru cyn gynted â phosibl, fel y gall Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru fynd ati i lobïo.
    - Gofyn iddynt anfon cynrychiolydd i'r Grŵp Trawsbleidiol yn rheolaidd.

2. **Cysylltu â Llywodraeth Cymru, i:**

    - Ofyn a allai'r Grŵp Trawsbleidiol a grwpiau defnyddwyr gyfarfod gyda Thrafnidiaeth Cymru a'r Prif Weinidog.
    - Galw am adolygiad annibynnol eto ac awgrymu arbenigwyr a allai wneud yr adolygiad.

## 1. Croeso gan y Cadeirydd a Chyflwyniadau

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2023 a Materion yn Codi

Codwyd sefyllfa anarferol lle nad oedd unrhyw un o'r aelodau grŵp a oedd yn bresennol wedi mynychu'r cyfarfod blaenorol, felly nid oedd yn bosibl cymeradwyo'r cofnodion o 10 Chwefror. Mae'r eitem hon yn cael ei chario drosodd i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ym mis Gorffennaf.

## 3. Cwmni Egino

Fe fu Cwmni Egino yn cyfarfod yn ddiweddar gyda Sam Rowlands AS yn ymwneud â'u cynigion i ailddechrau cynhyrchu pŵer niwclear yng ngorsaf bŵer niwclear Trawsfynydd. Tra bod Trawsfynydd y tu allan i etholaeth ranbarthol Gogledd Cymru, byddai datblygiad o'r math hwn bron yn sicr o gael effaith ar ranbarth Gogledd Cymru. Mynychodd y Prif Weithredwr Alan Raymant y cyfarfod hwn i roi cyflwyniad i'r grŵp a chodi ymwybyddiaeth yn ymwneud â'u prosiect yn Nhrawsfynydd. Dyma'r prif bwyntiau o gyflwyniad Alan:

- Sefydlwyd Cwmni Egino (CE) i ddarparu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd-gymdeithasol o gwmpas Trawsfynydd.
- Bydd y prosiect yn denu mewnfuddsoddi sylweddol, £2/3 biliwn o fewnfuddsoddi felly budd economaidd-gymdeithasol sylweddol.
- Prosiect oes o 60 mlynedd, 400 o swyddi uniongyrchol + gwaith cadwyn gyflenwi. Edrych ar sut i wneud y mwyaf o gyfleoedd i gwmnïau lleol. Un o'r prif ffactorau y bydd Llywodraeth y DU yn meddwl amdano yw beth yw ôl troed cyffredinol y technolegau hyn.
- Mae'r sefyllfa polisi ar gyfer niwclear yn cryfhau.
- Memorandwm o Ddealltwriaeth Cwmni Egino gyda'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, sy'n berchen ar y safle. Mae Cwmni Egino wedi edrych ar beth allai ffitio ar y safle, nid ydynt wedi dewis technoleg ar y pwynt hwn ond maent yn chwilio. Strategaeth gwerth cymdeithasol ar waith i amlinellu sut i ddal y buddion economaidd-gymdeithasol.
- Y prif ffocws rŵan - cadarnhau'r prosiect yn rhaglen y DU.
- Cymorth trawsbleidiol - dywedodd Alan nad yw'n gweld rhaniad polisi mawr dros p'un ai i fynd am niwclear ai peidio, mae'r rhaniadau'n fwy tebygol o fod ynghylch sut mae blaenoriaethau yn cael eu datblygu ar gyfer pob safle.
- Amserlen - rhaglen sy'n para oddeutu 5 mlynedd i fynd drwy'r prosesau cydsynio a chynllunio cyn i'r prif ymgynghoriad ddechrau, ond efallai y bydd gwaith ar raddfa lai cyn hynny. Disgwyliad y bydd technoleg yn cael ei gadarnhau erbyn diwedd y flwyddyn.
- Cost - ni fydd y model a ddefnyddiwyd ar gyfer Hinkley Point yn mynd i weithio wrth symud ymlaen. 'Model Rheoleiddio yn Seiliedig ar Asedau' - rhannu risgiau allweddol rhwng y defnyddiwr, y llywodraeth a'r datblygwr. Lleihau'r gost ariannu ar gyfer cynhyrchu yn sylweddol.
- Diogelwch - proses asesu dyluniad generig (4 blynedd), cadarnhau bod y dyluniad yn ddiogel ac yn addas i'w weithredu yn y DU. Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr ochr amgylcheddol. Bydd achos diogelwch penodol i safle yn

cael ei wneud, y bydd angen i'r holl reoleiddwyr ei wella. Mae llawer o oruchwyliaeth. Annibyniaeth y rheoleiddiwr i roi hyder.

- 2 prif gam i'r prosiect rŵan:
  - Cael nawdd / cyllid ar gyfer y cam datblygu
  - Sicrhau cyllid ar gyfer adeiladu
- Mae'r cam noddi yn bwysig iawn, gan ei fod yn golygu bod colegau ac ati yn gallu dechrau cynllunio, gan fod yna siawns go iawn y bydd y prosiect yn cael ei wireddu.

## 4. Llythyr y Gweinidog Gwladol Cludiant i'r Grŵp Trawsbleidiol (Stephen Jones)

Cyflwynodd Stephen Jones (Ysgrifennydd y Bwrdd, Tasglu Rheilffordd Gogledd Cymru a Mersi Dyfrdwy) y llythyr a dderbyniwyd ar 21 Mawrth, a ddisgrifiodd fel 'ateb dros dro'. Prif bwyntiau:

- Angen cael cyhoeddiad cynnar o beth mae Trafnidiaeth Cymru yn ei gynnig ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth i alluogi lobïo prydlon ar gyfer cyllidebau'r dyfodol ac adolygiadau gwario.
- Mae'n gadarnhaol fod Bwrdd Rheilffyrdd Cymru wedi'i grybwyll yn y llythyr - efallai y bydd achos i gynnwys mwy o fudd-ddeiliaid yng nghyfarfodydd Bwrdd Rheilffyrdd Cymru dros amser.
- Yn gyffredinol - ymateb cadarnhaol a'r prif gam gweithredu yw bod cynrychiolwyr sy'n cael eu hethol yn y rhanbarth yn parhau i roi pwysau ar gyfer dyrannu arian cyfalaf.

**Cam gweithredu - Gofyn i Drafnidiaeth Cymru gyhoeddi adran Gogledd Cymru o'r prosbectws ar gyfer buddsoddiad mewn isadeiledd rheilffyrdd Cymru cyn gynted â phosibl, fel bod Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru yn gallu mynd ati i lobïo.**

## 5. Cymdeithas Defnyddwyr Rheilffordd Bidston Wrecsam (John Allcock, Cadeirydd Cymdeithas Defnyddwyr Rheilffordd Bidston Wrecsam)

Cysylltodd Cadeirydd Cymdeithas Defnyddwyr Rheilffordd Bidston Wrecsam â Chadeirydd Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru, gan nodi 'methiannau parhaus Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â lein Bidston Wrecsam'. Gofynnodd John a allai fynychu cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol. Dyma'r pwyntiau allweddol o'i gyflwyniad:

- Mae yna lawer o rwystredigaeth gyda diffyg ffocws ar gwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru (mae Trafnidiaeth Cymru ar y gwaelod ar y cyd â TransPennine Express ar gyfer gwasanaethau i gwsmeriaid).
- Mae Trafnidiaeth Cymru wedi addo gwelliannau yn gyson ond wedi methu'n gyson i'w cyflawni.
- Yn atebol i ac yn is-gwmni i Lywodraeth Cymru - beth sydd angen ei wneud i ddal Trafnidiaeth Cymru i gyfrif?
- Mae grwpiau defnyddwyr rheilffordd sy'n cwmpasu Glannau Mersi, Swydd Gaer a Swydd Amwythig wedi ysgrifennu llythyr agored; yn gofyn i

Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad annibynnol o berfformiad Trafnidiaeth Cymru.

- Ken Skates AS - mae'r llythyr agored ar y cyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n bryderus iawn. Angen bod yn rymus iawn ar y mater fel Grŵp Trawsbleidiol.
- Awgrymodd yr aelodau y dylai cynrychiolydd o Drafnidiaeth Cymru fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol o hyn ymlaen.

**Camau gweithredu:**

- **Siarad â Thrafnidiaeth Cymru o ran cael cynrychiolydd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol o hyn ymlaen.**
- **Gofyn am adolygiad annibynnol eto (aelodau i awgrymu, drwy'r ysgrifenyddiaeth, byrddau/arbenigwyr a allai wneud yr adolygiad).**
- **Gofyn am gyfarfod gyda Thrafnidiaeth Cymru a'r Prif Weinidog - mater mor ddifrifol ar gyfer y rhanbarth, angen mynd â'r mater at y Prif Weinidog (John Allcock i fod yn bresennol).**

## 6. Y newyddion diweddaraf gan Uchelgais Gogledd Cymru

Gweler y diweddariad ar wahân.